# Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol**: David Rees AC, John Griffiths AC, Jayne Bryant AC, Carwyn Jones AC, Jack Sargeant AC, Russel George AC, Matt Williams - Swyddfa Lee Waters AC, Zach Harvey - Swyddfa Ann Jones AC, Stefan Ryszewski - Swyddfa Suzy Davies AC, Robert Edwards - Undeb Community, Steve Smith - Tata Steel, Peter Quinn - Tata Steel, Paul Evans - Unite, Sean Parson - Liberty Steel, yr Athro Julian Allwood, Chris Haag - Celsa Steel, Grace Skelton - UK Steel, Ian Williams - Unite, Mike Davies - Unite, Gareth Jones - Unite, Brett Williams - Community

**Ymddiheuriadau:** Huw Irranca –Davies AC, Suzy Davies AC, Lee Waters AC, Bethan Sayed AC, Llyr Hughes Griffiths AC, Helen Mary Jones AC, Jason Bartlett - Unite, Jeff Beck - GMB, Bobbie Davies - Tata Steel, Tony Brady - Unite

---

**Cadeirydd: David Rees AC**

**Croeso**

Croesawodd **David Rees AC** yr aelodau, yr Athro Allwood a chynrychiolwyr y Diwydiant Dur i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur. Mae'r agenda ddur yn ddiddorol iawn ar hyn o bryd, yn enwedig yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni ond mae angen inni edrych ar y pethau cadarnhaol sydd o'n blaenau.

**Eitem 3: Ethol Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol**

Cadeirydd - Enwebwyd David Rees AC gan John Griffiths AC ac eiliwyd gan Rob Edwards. Ni chafwyd enwebiadau eraill felly ail-etholwyd David Rees AC yn Gadeirydd.

Ysgrifennydd - Enwebwyd Angharad Thomas (Swyddfa David Rees AC) gan Paul Evans ac eiliwyd gan Jayne Bryant AC. Ni chafwyd enwebiadau eraill felly ail-etholwyd Angharad Thomas yn ysgrifennydd.

**Eitem 4: Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 16 Gorffennaf 2019.**

Derbyniwyd cofnodion **David Rees AC** fel cofnod cywir heb fod angen unrhyw newidiadau.

**Eitem 6: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Sector Dur.**

Rhoddodd **Steve Smith** y wybodaeth ddiweddaraf am Weithrediadau Tata Steel yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ORB a'i sefyllfa bresennol.

Rhoddodd **Rob Edwards** safbwynt Undeb Community ar Orb.

Rhoddodd **Paul Evans** farn a safbwynt Unite ar Orb.

Mynegodd **Carwyn Jones AC** ei brofiadau o'r diffyg dealltwriaeth a diddordeb sydd gan Whitehall mewn Dur.

Rhoddodd **Chris Hagg** y wybodaeth ddiweddaraf am Weithrediadau Celsa yng Nghymru

Rhoddodd **Sean Parsons** y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau Liberty Steel.

Rhoddodd **Grace Skelton** y wybodaeth ddiweddaraf gan UK Steel am Fargen y Sector, Brexit a'i oblygiadau.

Dywedodd **David Rees AC** wrth y grŵp ei fod wedi ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Andrea Ledsholm AS, Ysgrifennydd Gwladol BEIS, yn gofyn iddi ddod i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur. Mae hi wedi trosglwyddo hyn i'r Gweinidog sydd â Chyfrifoldeb am Ddur Nadhim Zahawi ac rydym yn aros am ei ymateb .

Nododd David hefyd ei siom o glywed am y diffyg diddordeb mewn Dur gan Lywodraeth y DU.

## Eitem 5: Cyflwyniad gan yr Athro Allwood a thrafodaeth ynghylch Datgarboneiddio

Cyflwynodd **David Rees AC** yr Athro Allwood i'r grŵp.

Cyflwynodd **Yr Athro Allwood** ei adroddiad - Steel Arising, i'r grŵp gan fynd drwy ei ganfyddiadau a'i gasgliadau yn fanwl.

Cafwyd trafodaeth ar yr adroddiad i ddilyn, gyda phob aelod o'r grŵp yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi barn ar ddyfodol dur a'r agenda ddatgarboneiddio ehangach.

**EITEM 7 – Unrhyw fater arall**

**Nid oedd mater arall i'w drafod.**

Diolchodd David i bawb am ddod. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Ionawr 2020 ac mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cael ei wahodd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i'r grŵp.

Daeth y cyfarfod i ben yn ffurfiol.